# Ymweliadau safleodd cynllunio

## Adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Gorffennaf 2010

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd Eric Roberts (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, Lewis Davies, Jim Evans (Eitem 2 yn unig), Kenneth P. Hughes, R. L. Owen, Eric Roberts, J. P. Williams |
| **Wrth law:** | Rheolwr Rheoli Cynllunio<br>Swyddog Pwyllgor (MEH)<br>Cymhorthydd Gweinyddol (Dros Dro) (NT). |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cynghorydd W. J. Chorlton |

**1 32/C/68J - Newid defnydd rhan o'r maes chwarae yn le parcio ceir yn Ysgol Caergeiliog, Caergeiliog**

*(Fe ddatganodd y Cynghorydd E. G. Davies ddiddordeb ac ni chymerodd ran yn y drafodaeth ar y cais ar y safle).*

Dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio mai cais oedd hwn am 64 o lefydd parcio ychwanegol ar ran o'r cae chwarae presennol.

Dywedodd bod cais wedi'i wneud i'r ymgeisydd am 'Strategaeth Teithio Gwyrdd' er mwyn gweld a oedd unrhyw ffyrdd eraill o ddatrys y problemau traffig wedi cael eu hystyried. Nid oedd unrhyw ymateb wedi'i dderbyn.

**2 26/C/100A - Codi adeilad ffrâm bortal er mwyn storio a chynnal a chadw tractors a pheiriannau amaethyddol yn Tan y Coed, Marianglas**

Nodwyd mai'r swyddogion oedd wedi gofyn i'r aelodau ymweld â'r safle hwn er mwyn penderfynu a oedd y safle yn y pentref neu yn y cefn gwlad.

Cadarnhaodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio fod yna dystysgrif defnydd cyfreithlon i'r garafan breswyl oedd ar y safle a chadarnhaodd mai mesuriadau y sied arfaethedig fyddai tua 14 metr wrth 9 metr a 5 metr o uchder.

Cyfeiriwyd hefyd at y gweithgareddau blaenorol ar y safle a dywedodd y Rheolwr Rheoli Cynllunio ei fod o'r farn y gellid disgrifio'r tir fel safle tir llwyd.

Dywedwyd nad oedd yna unrhyw wrthwynebiadau wedi cael eu codi gan yr Awdurdod Priffyrdd, ond pebai caniatâd cynllunio'n cael ei roi, byddai'r Adran Priffyrdd yn edrych i gael gwneud gwelliannau i'r fynedfa.

**Y Cynghorydd Eric Roberts**
**Is-Gadeirydd**